

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod y Cyngor, Nos Fawrth y 11ed o Orffennaf 2017

- 1. Presennol:** Gwyndaf Roberts (Cadair), Hefina Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Harry Wyn Owen, Dafydd Wyn Jones – Talysarn; Nerys Williams, Dylan Herbert, Barry Bracegirdle – Penygroes; Ffion Jones – Nantlle; Dafydd Thomas – Nebo; Judith Humphreys – Cyngorydd Sir; Julie Holand PCSO ac Owain Llewelyn – Arolygydd Heddlu Gogledd Gwynedd (eitem 3) / **Ymddiheuriadau:** Sharon Wynne Jones – Talysarn a Justin Davies – Penygroes.
- 2. Cyngorwyr Sir.** Dim ond Judith yn bresennol. Ni chafwyd ymddiheuriad gan Craig ab Iago na Dilwyn Lloyd. Cafwyd adroddiad gan Judith ar wahanol faterion a oedd wedi bod yn gweithio arnynt yn ystod y mis: Safle Co-op presennol – bydd yn mynd ar y farchnad agored pan fydd y Co-op newydd yn barod. Judith am holi os all rheolwr rhanbarth y Co-op ddod i'n cyfarfod er mwyn cael cyfle i drafod; Cais cynllunio'r mast teleffon – penderfyniad Cyngor Gwynedd wedi ei ohirio tan fis Medi nes cael yfarfod safle cynllunio. (DH) Mast yn Bontnewydd wedi cael effaith ar signal teledu; Cae Efa Lwyd – mis Hydref; Polisi torri gwair Cyngor Gwynedd – o fewn 30 mya, torri 3 gwaith , a thu allan i 30 mya torri 1 waith; Biniâu ailgylchu Penygroes (Llanast) – Yn dilyn gwneud ymholiadau, dywedodd Judith fod yr un broblem wedi digwydd yn Llanberis, a bod y biniâu wedi eu symud oddi yno a'r broblem wedi mynd, ond hefyd Judith yn ymwybodol fod y safle yn bwysig a bod y Cyngor Cymuned hefyd yn credu fod angen cadw'r biniâu ym Mhenygroes gan fod llawer o ddefnydd iddyn nhw. Judith am adrodd hyn yn ol i Clive Price (swyddog y Cyngor); Dylan Jones (Parcio) am ymweld a Judith mis Medi; Roedd wedi derbyn cwynion fod angen torri gwair Cwtin – gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo Alun Wyn Jones gan mai Cyngor Gwynedd fydd fel arfer yn torri – os na fydd yr adborth yn ffafriol, yna y Cyngor Cymuned i gylchlythru trigolion West Shore; Dywedodd Judith fod teimladau cryfion am gael meddyg Cymraeg yn Dolwenith ac o bosib deiseb; Roedd yn edrych i gael tudalen Facebook 'Newyddion Penygroes'; Toiledau cyhoeddus Penygroes – Cabinet Cyngor Gwynedd yn ymwybodol fod y Cyngor Cymuned yn ceisio adnabod darpariaeth amgen. Hyn dal angen ei gadw ar yr agenda, ac efallai crybwyll wrth reolwr rhanbarth y Co-op; Roedd Judith, Barry a Nerys wedi cyfarfod gyda Prifathrawes Ysgol Dyffryn Nantlle yn ystod y mis a wedi dod i ddatrasiad ynglyn a'r llwybr a gaewyd gan ffens yr ysgol. Diolchwyd yn fawr iawn i Judith am ei gwaith caled dros y mis.
- 3. Heddlu (gwahodd)** Croesawyd Julie Holland a Owain Llewelyn i'r cyfarfod. Roedd Owain Llewelyn yn dysgwr Cymraeg, rhoddwyd y rheolau sefydlog heibio ar gyfer yr eitem hom a thrafodwyd yn Saesneg. Ers blwyddyn bellach, mae 2 PCSO ym Mhenygroes, ac un ohonynt yn siarad Cymraeg. Problemau staffio presennol yn golygu fod heddweision yn gweithio o Gaernarfon i leihau'r diffyg staff sydd yno. Dywedodd fod lefelau staffio ar eu isaf ym Mangor a Chaernarfon a Bethesda. Mynegwyd pryder am or-yrru, difrod i geir yn Talysarn, problemau cyffuriau. Dywedodd yr Arolygudd fod diffyg gwyboeth am unrhyw broblem gyffuriau yn yr ardal hon. Cartrefi Cymunedol Gwynedd wedi cyd-weithio a'r Heddlu i daclo pryeron cyffuriau ym Mhenygroes, a hyn i weld wedi gwneud gwahaniaeth bositif. Dywedodd mai'r ffordd orau i adrodd ar bryderon yn ymwneud a chyffuriau oedd i drigolion gysylltu a CrimeStoppers – gellir gwneud hyn yn ddi-enw. Dywedodd fod ymrwymiad wedi ei wneud i gadw staff yng ngorsaf Penygroes. Heddweision Penygroes ar hyn o bryd (Alex a Matt) yn cael eu galw i ffwrdd tua 50% o'r amser, a bod hyfforddiant ar gyfer 'Special Constables' i gael statws annibynnol. Fe holwyd yr heddlu am y goleuadau beics ar gyfer ysgol Nantlle, ynglyn a cheir wedi eu difrodi yn Llanllyfni ac am stondin a oedd yn gwerthu gyniau BB yn ffair Llanllyfni. Parthed gor-yrru, cafwyd manylion am gynllun 'Community Speed Watch' gan Julie, ac er mwyn sefydlu, mae rhaid cael 8-10 o aelodau. Diolchwyd Julie ac Owain am eu presenoldeb.
- 4. Cyfethol.** 2 sedd wag yn parhau ar y Cygor – ward Penygroes . Roedd Nerys wedi bod yn holi yn lleol, ac wedi cael dau enw posib. Gofynwyd i Nerys ofyn wrth y ddau os yn bendant eisiau bod ar y Cyngor Cymuned - cyfethol mis Medi.
- 5. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** OP Huws – parcio Llanllyfi.
- 6. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Mehefin.** Barry yn datgan cywirdeb y cofnodion, a Hefina yn eilio.
- 7. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Pris wedi ei dderbyn i drwsio mainc Llanllyfni – penderfynwyd derbyn a symud ymlaen i'w thrwsio; Hafo Unos – atgoffa Cyngor Gwynedd eto.

- 8. Taflen Ariannol a Chyllid.** Cymeradwywyd cyfrifon blynyddol y Cyngor Cymuned 2016-17, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd. Tra bo'r Cyngor Cymuned yn trefnu swyddogion newydd ar gyfer llofnodi sieciau i'w talu cytunwyd y byddai hawl gan y Clerc dalu biliau dros y we os yw'n bosib gwneud hynnu efo'r cwmni.
- 9. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio.** Partneriaeth Llew – contractau. Dylid cynnwys chwistrellu chwyn. Prosiectau Ynni - Dafydd Watts angen rhywun I wneud cynllun asesiad ; Cyfarfod parcio Llanllyfni (OP Huws yn datgan diddordeb) – Awgrymwyd fod y Cyngor Cymuned yn llythyr trigolion tai ar yr ochr dde i fyny Ffordd Rhedyw a gofyn iddyn nhw ddefnyddio'r lon gefn i barcio. 3 Aelod Llanllyfni am gyfarfod i lunio llythyr. Gofyn i Tai Gwynedd a Cartrefi Cymunedol Gwynedd glirio y rhannau o lon sydd yn eiddo iddyn nhw fel rhan o unrhyw gynllun, ac efallai ysgrifennu at Cyngor Gwynedd i ofyn os y byddai chipins ar gael I helpu.
- 10. Cynllunio:** C17/0611/22/LL- 2 BrynEilian Talysarn – estyniadau a balconiau. Dim gwrthwynebiad. C13/0217/22/MW – Chwarel Cae Efa Lwyd – Gwybodaeth ychwanegol wedi ei dderbyn. Dim gwrthwynebiad, ond pwysig rhoi amodau megis asesiad llwch, effaith ar dai cyfagos, cyfyngiadau loriau ac amseroedd ysgol, glanhau. Angen cadw golwg ar ddatblygiadau. C17/0536=8/22/LL – Uned 6C Stad Ddiwydiannol Penygroes – codi uned ddiwydiannol ar gyfer trin moduron ynghyd a chreu mynedfa gerbydol newydd a datblygiadau cysylltiol. Dim gwrthwynebiad.
- 11. Gohebiaeth.**
 *Cyngor Gwynedd: Ymatebion priffyrdd – darllenwyd yr ymatebion.
 *Parcio Llanllyfni – gweler eitem 9.
 *Cyfyngu manau parcio ar y stryd – dileu trwyddedi preswyl anabl. Er gwybodaeth.
 *Arall:
 *Cylchlythyr Arloesi Gwynedd Wledig. Er gwybodaeth.
 *Bwletin Un Llais. Er gwybodaeth.
 *Datgwiad Newyddion – meddygon teulu. Er gwybodaeth.
 *Gwybodaeth Cynhadledd Un Llais 30/9. Neb yn mynychu.
 *Cynllun 'Great Place' Cymru. Er gwybodaeth.
 *Cofnodion Pwyllgor Dwyfor Un Llais. Derbyd.
 *Clerks and Councils Direct. Derbyd.
 *Cynllun Datblygu Unedol Eryri. Er gwybodaeth.
- 12. Materion Pentrefi : Nebo** Ysgolion bach gwledig – croesawu cynnig Kirsty Williams (Ysgrifennydd Addysg) o edrych ar safon addysg a chydweithio yn y gymuned ysgolion bach a nad oes rhagdybiaeth bendant i gau ysgolion bach – anfon i Kirsty Williams fel Cyngor yn cefnogi; Cwyn am y gwair Cae Cwtin;
Talysarn Copi ebost gan Sharon Jones parthed Dorothea – diolch i Sharon am yr wybodaeth – rhannu gyda'r Heddlu; Ceir wedi eu targedu yn y pentref – yr Heddlu wedi eu hysbysu; Cais gan Blodeuwedd (Craig ab Iago) – y Cyngor yn ddiolchgar iawn o ymdrechion Blodeuwedd, ac wedi cyfrannu yn ariannol fis Chwefror; Llongyfarch y grwp yn y petref am eu ymdrechion i godi arian ar gyfer CCTV – y Cyngor yn awyddus aros i weld beth fydd y datblygiadau ; Llwybr o giat y safle tirlenwi trwy Parc Bel i lawr i Talysarn, tu ol i Eifion Terrace wedi mynd. Penygroes Pryderon parcio ar Ffordd y Brenin – a oes rheswm pam nad yw disgyblion y 6ed dosbarth ddim yn cael parcio ar dir yr ysgol? Holi Cyngor Gwynedd pryd fydden nhw'n chwistrellu chwyn yn y pentref.
- 13. Llwybrau a Mynwentydd.** Llwybr heibio Capel Hyfrydle angen torri; Cais i dorri llwybr yn Llanllyfni a' rhoi ar y rhestr torri blynyddol – Gwyndaf am gysylltu. Bin blodau Gorphwysfa – cwynion; Chwyn Gorphwysfa – cwyn; Llwybr 99 Dolwenith i Talgarnedd, llwybr 56 Ffordd Talgarnedd i caeau Perthi i Lon Tyddyn Agnes angen torri; Cwyn fod y gorlen flodau angen ei gwagio yn Gorphwysfa (Craig ap Iago) – trefniadau mewn llaw; Cymeradwywyd torri'r chwyn yn Gorphwysfa.
- 14. Materion yn ymwed a'r heddlu.**
- 15. Materion ariannol.** Ffon/Rhyngwyd Clerc £25; Derbynebau Clerc; Scottish Power £19.01; Scottish Power £24.35; Ad-daliad TAW 2016-17 Cymeradwywyd.
- 16. Ceisiadau am arian** Dim cais gerbron mis yma.